# GWYLIO GWYLLT GYMUNED

**Sesiwn cofnodi bywyd gwyllt am ddim a gyflwynir gan Ganolfan Gwybodaeth Bioamrywiaeth Gorllewin Cymru. Ffordd wych o ddarganfod eich bywyd gwyllt lleol.**



Mae hwn yn rhan o brosiect **Eich Darn Gwyllt**, er mwyn meithrin sgiliau adnabod bywyd gwyllt yn y gymuned a helpu pobl i fonitro eu mannau lleol. Fe'i hariennir gan gynllun grant bioamrywiaeth Rhaglen Lleoedd Lleol ar gyfer Natur Llywodraeth Cymru. Bydd sesiynau **Gwylio Gwyllt Gymuned** rheolaidd yn symud o amgylch gwahanol gymunedau yng Ngheredigion, Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin

Byddwn yn archwilio'r cynefinoedd bywyd gwyllt lleol gyda'n gilydd, yn cofnodi'r rhywogaethau a ddarganfyddwn, ac yn cael hwyl wrth edrych ar fyd natur mewn sesiwn hamddenol, ymarferol. Darperir hyfforddiant ar gofnodi ac adnabod rhywogaethau. Byddwn yn edrych ar bob math o fywyd gwyllt, gan ganolbwyntio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol dymhorau. Gallwn gynnig cyngor ac adnoddau i'ch helpu i barhau i gofnodi bioamrywiaeth yn eich ardal leol. **Croeso i bawb, waeth beth fo'ch profiad.**

## Dyddiadau / Lleoliadau sydd ar ddod yn Sir Ceredigion:

**Cenarth: dydd Mercher 24th Medi, 10:00 – 13:00**
Cwrdd: **Cenarth Falls Car Park, SA38 9JL.** What3words: riverbed.melt.frock

**Aberaeron: dydd Mercher 1st Hydref, 10:00 – 13:00**
Cwrdd: **mynediad i'r parc ar Stryd y Bont, SA46 0AP.** What3words: mini.opens.respected

**Tregaron: dydd Mercher 8th Hydref, 10:00 – 13:00**
Cwrdd: **Eglwys Sant Caron, SY25 6JL.** What3words: crouches.forge.eaten

| Dewch â'r canlynol gyda chi: | Dŵr a dillad awyr agored addas ar gyfer y tywydd.<br><br>Lawrlwythwch yr ap 'LERC Wales' i gofnodi ar eich ffôn, neu dewch â llyfr nodiadau (gallwn roi llyfrau nodiadau i chi). |
|---|---|

**Am fwy o wybodaeth neu i ymuno â'r rhestr bostio am ddigwyddiadau yn y dyfodol, cysylltwch â yusef@westwalesbiodiversity.org.uk**

Lleoedd Lleol ar gyfer Natur / Local Places for Nature
Cyngor Sir Ceredigion County Council
Partneriaeth Natur Ceredigion / Ceredigion Nature Partnership
WCVA CGGC
Ariennir gan Lywodraeth Cymru / Funded by Welsh Government
WWBIC